TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Technoleg Gwybodaeth a Seiberddiogelwch Lefel 2/3

Yn gryno

Byddwch yn cael y cyfle i ddatblygu eich gwybodaeth ac ennill dealltwriaeth ehangach o'r Sector Cyfrifiadura a TG, yn ogystal â datblygu sgiliau ar gyfer gweithio ym maes Seiberddiogelwch.

Mae'n gyfle unigryw i ennill dau gymhwyster cyffrous o fewn blwyddyn.

Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf, byddwch wedi cyflawni:

Diploma BTEC Lefel 3 mewn Systemau ac Egwyddorion TGCh a Diploma Technegol BTEC Level 2 mewn Seiberddiogelwch.

Dyma'r cwrs i chi os...

...rydych eisiau dilyn gyrfa mewn TGCh a Chyfrifiadura

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

...rydych yn awyddus i weithio mewn amgylchedd cefnogi busnes.

...rydych yn awyddus i weithio a dysgu mwy am Seiberddiogelwch.

...rydych eisiau datblygu amrywiaeth o sgiliau a thechnegau, sgiliau personol a nodweddion hanfodol ar gyfer llwyddo yn eich bywyd gweithio

...mae gennych ddiddordeb brwd mewn Cyfrifiadura a thechnoleg

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys amrywiaeth o unedau, yn cynnwys:

Datrysiadau Gwasanaeth TG
Hanfodion Dylunio Meddalwedd
Systemau Cyfrifiadurol
Offer a Gosodiadau Rhwydweithio
Egwyddorion Systemau TGCh a Diogelwch Data
Dadansoddi a Dylunio Systemau
Mewnosod a Chynnal a Chadw Rhwydweithiau
Diogelwch, Amddiffyn a Rheoli Risg

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs byddwch angen o leiaf dau TGAU Gradd C a dau TGAU Gradd D ac uwch. Dylai'r rhain gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu Dystysgrif Lefel 2 priodol mewn maes galwedigaethol perthnasol gyda Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol. Mae dangos parch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunan gymhelliant yn nodweddion hanfodol yr ydym yn disgwyl eu gweld ym mhob un o'n dysgwyr. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hunain.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cyflogaeth yn y Sector Busnes, TG a Chyfrifiadura, neu'r cyfle i astudio'r Ddiploma Estynedig Lefel 3 mewn Cyfrifiadura neu mewn rhai achosion, y HND mewn Cyfrifiadura neu'r Ddiploma

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Estynedig Lefel 3 mewn Busnes, neu'r Radd Sylfaen mewn Busnes.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r holl gostau'n cael eu hadolygu a gallant newid.